



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru Education for Wales

LLAWLYFR MODWL

ECDE7001

Archwilio Materion Cyfoes Addysg 1:

Datblygu sgiliau beirniadol fel Arweinwyr

Doethuriaeth mewn Addysg
(Ed D)

LEFEL 7

Yr Athrofa

2018-2019

Tîm Modwl

Gareth Evans (Arweinydd Modwl)	gareth.evans@uwtsd.ac.uk
Dr Jan Barnes	janine.barnes@uwtsd.ac.uk
Dr Helen Lewis	h.e.lewis@uwtsd.ac.uk
Dr Sioned Hughes	s.v.hughes@uwtsd.ac.uk

Gobeithiwn y gwnewch fwynhau'r modwl – rydym yma i helpu. Dylech:

- Wneud defnydd da o gyfleusterau ac adnoddau'r Brifysgol
- Fynychu, paratoi a chymryd rhan mewn sesiynau
- Fod yn hunan-gyfeiriedig ac yn ddysgwyr mwy annibynnol
- Reoli eich amser a'ch gwaith er mwyn bodloni terfynau amser yr aseiniadau

Eich cyfrifoldeb chi yw darllen Rheoliadau ar gyfer Myfyrwyr y Brifysgol, yn enwedig y rheoliadau sy'n ymwneud ag aseiniadau. Mae'r rhain ar gael ar MyDay.

Dylid cyflwyno pob aseiniad ysgrifenedig, ac eithrio papurau arholiad, yn electronig drwy TURNITIN.

Amcanion a Deilliannau'r Modwl

Mae'r modwl cyntaf hwn yn gyflwyniad i'r Ddoethuriaeth mewn Addysg ac yn sefydlu fframwaith i gyfranogwyr archwilio amrywiaeth o faterion cyfoes y mae addysgwyr yn eu hwynebu a datblygu rhinweddau personol a chyffredinol, sgiliau a phrofiad wrth arfer arweinyddiaeth a datblygiad polisi. Bydd y modwl yn pwyso a mesur amrywiaeth o faterion cyfoes yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, ac yn ystyried llwyddiant a methiant cymharol polisiâu cysylltiedig mewn gwahanol gyd-destunau. Cynigia Materion Cyfoes mewn Addysg sail gadarn i adeiladu arni, gan ddarparu fframwaith sy'n galluogi cyfranogwyr i gyfrannu at drosolwg ar y materion allweddol y mae addysgwyr yn eu hwynebu gan archwilio un neu ragor yn fanylach.

Gwnaiff y modwl hwn ddarparu ar gyfer cyfranogwyr y cyfle i ganolbwyntio yn fanwl ar faes polisi ac arfer sydd yn rheng flaen eu gwaith. Bydd yr ymarferion asesu yn annog cyfranogwyr i gyfrannu'n uniongyrchol at y ddadl genedlaethol drwy gyhoeddi a chyflwyno.

Amcan(ion)

- Datblygu dealltwriaeth o gymhwyso, a rhagoriaeth wrth gymhwyso'r sgiliau beirniadol sydd eu hangen ar gyfer arweinyddiaeth effeithiol ym myd addysg.
- Gwerthuso'n feirniadol ymagweddau cyferbyniol at un neu fwy o faterion cyfredol sy'n wynebu gwella safonau addysgol yng Nghymru, y DU a chyd-destunau rhyngwladol.
- Gwerthuso'n feirniadol y modd y cyflwynir materion a chynigion addysgol cyfredol mewn deddfwriaeth, canllawiau statudol ac anstatudol, drwy ddogfennau ymgynghori, a phortread y materion a'r cynigion hynny yn y wasg, y cyfryngau cymdeithasol a sianeli eraill.
- Datblygu dealltwriaeth feirniadol o effaith gwahanol bortreadau o fater addysg cyfoes ar ysgolion, rhieni, cymunedau, a phlant a phobl ifanc.

Deilliannau Dysgu

Ar gwblhau'n llwyddiannus y modwl hwn, dylai'r myfyriwr allu dangos y gallu i:

- Asesu effaith ymagweddau gwahanol at gyflwyno polisiau, cynigion a deilliannau addysgol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.
- Ddeall y dystiolaeth ynglŷn â'r effaith y mae gwahanol drafodaethau yn ei chael, o ran hyrwyddo neu liniaru effaith newid addysgol.
- Archwilio yn feirniadol y berthynas rhwng polisi addysg, strategaeth weithredu ac effaith, yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
- Gyfleu dealltwriaeth o'r heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig ag arwain yn llwyddiannus newid addysgol.

Manylion y Sesiynau

Mae'r modwl hwn yn cynnwys cyfanswm o 30 awr o ddysgu ar yr amserlen a 270 awr o ddysgu annibynnol. Bydd dau ddiwrnod pan fydd cyfranogwyr a'r tîm modwl yn gweithio gyda'i gilydd, yn ogystal â rhaglen o weminarau/tiwtorialau wythnosol, er mwyn darparu gweddill y sesiynau dysgu ar yr amserlen a chynorthwyo unigolion a grwpiau o gyfranogwyr.

Fframwaith y Modwl

Wythnos	Ffocws a deilliant	Aseiniad
1	Diwrnod Wyneb yn Wyneb 1 (13.10.18): Trosolwg ar y rhaglen; archwilio cwrdd y materion sy'n wynebu addysgwyr yng Nghymru; sefydlu blaenoriaethau; archwilio ffynonellau ac adnoddau; datblygu dealltwriaeth o	

	ddeilliannau dysgu; ymarfer gofynion yr aseiniad. Trefniadau mentora a phartnera. Safonau a phrotocolau. Cyflwyniad i ysgrifennu blogiau. Deilliant: cynllun dysgu unigol.	
2	Mater 1: Y Drafodaeth Fawr – sut y caiff materion eu portreadu mewn gwahanol gyfryngau a chymunedau? Dadadeiladu'r drafodaeth ar addysg (Gweminar – 16.10.18).	Blog 1
3	Cadarnhau'r pwnc a'r ffocws. Paratoi blog (Tiwtorial). Deilliant: Cyhoeddi'r blogiau cyntaf.	
4	Mater 2: Dyfodol Llwyddiannus? – diwygio'r cwricwlwm gartref a thramor; gwersi o'r gymuned ryngwladol a'r goblygiadau i arweinyddiaeth addysgol (Gweminar – 30.10.18).	Blog 2
5	Casgliadau cychwynnol, ysgrifennu blogiau a pharatoi ar gyfer cyflwyniad cynhadledd (Tiwtorial). Deilliant: Yr ail set o flogiau a gyhoeddwyd.	Paratoi ar gyfer y cyflwyniad.
6	Mater 3: Sgwario cylch atebolrwydd – darganfod cydbwysedd rhwng dal gwasanaethau cyhoeddus yn atebol a rhoi rhyddid i addysgwyr arloesi (Gweminar – 13.11.18).	Blog 3
7	Cyflwyniad cynhadledd. Paratoi terfynol (Tiwtorial). Deilliant: Cwblhau'r cyflwyniadau drafft.	
8	Mater 4: Brics a mortar – ailstrwythuro addysg i fynd i'r afael â heriau'r 21ain Ganrif (Webinar – 27.11.18).	
9	Diwrnod Wyneb yn Wyneb 2 (08.12.18): Asesu a dadansoddi beirniadol ar y cyflwyniadau; sylwebaethau a chasgliadau; negeseuon allweddol. Adfyfrio ar ysgrifennu blogiau, edrych ymlaen at asesiadau terfynol a gofynion ysgrifennu erthyglau. Canlyniad: Trydedd set o flogiau wedi eu cyhoeddi; cyflwyniadau wedi eu diwygio a'u cyflwyno i'w cyhoeddi (10.12.18).	Cyflwyniad Cynhadledd
10	Mater 5: Tlodi uchelgais – beth nesaf i addysg? Effaith tlodi ar addysg; problemau parhaol; adfyfrio a	

	gwerthuso. Beth rydym wedi ei ddysgu a beth yw'r goblygiadau ar gyfer yr hyn a ddysgwn yn y dyfodol? (Webinar – 11.12.18) Negeseuon i gloi (Tiwtorial). Canlyniadau: Drafft cyntaf erthygl cylchgrawn a myfyrdod blog.	
	Cyflwyno'r aseiniad derfynol (Ionawr 2019: Dyddiad i'w Gadarnhau)	Erthygl cylchgrawn a myfyrdod blog

Cynnwys Modwl

Mater 1: Y Draffodaeth Fawr – sut y caiff materion eu cynrychioli mewn gwahanol gyfryngau a chymunedau? Dadadeiladu'r draffodaeth ar addysg.

Gosod yr olygfa. Bydd Mater 1 yn ystyried y cyd-destun ar gyfer polisi addysg y DU. Bydd yn edrych ar effaith gwleidyddiaeth ar addysg, y gwahanol ddulliau o ddarparu a'r rhanddeiliaid allweddol sy'n gyfrifol am sicrhau canlyniadau cryf i ddisgyblion. Bydd Mater 1 yn trafod pwysigrwydd hyder y cyhoedd mewn addysg, a'r ffordd y mae addysgwyr a llunwyr polisi yn ceisio ennill ffafr y cyhoedd ehangach. Bydd yn tynnu ar enghreifftiau rhyngwladol ac yn herio paradeimau poblogaidd, a'r draffodaeth ddilynol yn cynnig man cychwyn addas ar gyfer y modwl hwn. Bydd yn galluogi ystyriaeth fanwl o gyfryngau a phortreadau cyfoes o bolisi a dadansoddiad o effaith go iawn a photensial dulliau gwahanol.

Bydd y ffocws hwn hefyd yn galluogi cyfranogwyr i wneud eu cyfraniad eu hunain i'r draffodaeth. Er mwyn arfer 'arweinyddiaeth system', mae angen i arweinwyr gydol y system gyfrannu i'r draffodaeth a lywir gan dystiolaeth ynghylch pwrpas, cyfeiriad ac ansawdd y ddarpariaeth.

Mater 2: Dyfodol Llwyddiannus? – diwygio'r cwricwlwm gartref a thramor; gwersi o'r gymuned ryngwladol a'r goblygiadau i arweinyddiaeth addysgol.

Mae mater 2 yn ystyried mater 'byw' diwygio'r cwricwlwm – sydd mor amlwg yng Nghymru a'r DU yn ehangach ag ydyw mewn llawer o economïau byd-eang eraill. Bydd yn ystyried gwahanol ddulliau o ddiwygio'r cwricwlwm, a'r newid meddylfryd y mae ei angen ar y rheini sy'n gyfrifol am weithredu ar lawr gwlad. Mae mater 2 yn asesu'r ymdrech ryngwladol i newid y cwricwlwm a'r rhesymau wrth wraidd hynny. Bydd yn ystyried nodweddion allweddol cynnwys y cwricwlwm ledled y byd a'r heriau sy'n codi o ddulliau newydd o weithio. I gloi, rhoddir ystyriaeth i'r risgiau cynhenid sy'n gysylltiedig â diwygio'r cwricwlwm, y goblygiadau i athrawon ac arweinwyr, gan gyflwyno 'asiantaeth athrawon' yn nodwedd hanfodol.

Bydd y mater hwn yn hoelio'r sylw gartref a thramor a bydd angen pwysu a mesur yn feirniadol wledd o lenyddiaeth o bedwar ban byd.

Mater 3: Sgwario cylch atebolrwydd – darganfod cydbwysedd rhwng dal gwasanaethau cyhoeddus yn atebol a rhoi rhyddid i addysgwyr arloesi.

Mae mater 3 yn ystyried un o broblemau parhaol addysg – sut i gydbwysu atebolrwydd cyhoeddus a rhoi rhyddid i'r ysgol arloesi a gweithio er budd gorau'r dysgwr. Bydd yn cymharu a chyferbynnu gwahanol ffurfiau ar atebolrwydd mewn addysg, ac yn edrych ar ymateb y llywodraeth i berfformio ar draws gwahanol ddulliau meincnodi. Bydd myfyrwyr yn adolygu 'cymhellion gwrthnysig' mesurau atebolrwydd ac effaith dulliau atebolrwydd ar ymarfer ysgol/dosbarth. Mae mater 3 yn cloi gyda golwg fwy creadigol ar atebolrwydd a'r opsiynau sydd ar gael i'r rhai sydd â'r gwaith o sicrhau safonau addysg uchel.

Mae'r llenyddiaeth ymchwil yn helaeth, rhyngwladol ac yn llawn gwybodaeth. Ond mae llawer o themâu allweddol sy'n rhedeg ar draws awdurdodaethau. Caiff y rhain ystyriaeth fanwl a bydd gan fyfyrwyr yn y pen draw wybodaeth gadarn am yr heriau sy'n codi o ganlyniad i atebolrwydd.

Mater 4: Brics a mortar – ailstrwythuro addysg i fynd i'r afael â heriau'r 21^{ain} Ganrif.

Mae mater 4 yn ystyried newidiadau strwythurol mewn addysg a'r gwahanol haenau sy'n rhedeg trwy systemau ar draws y byd. Mae'n ystyried rolau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n gweithredu ar bob lefel mewn addysg a'r materion sy'n codi pan fydd gwahanol rannau o'r system yn pallu. Bydd yn ystyried y gwahaniaethau amlwg o ran ymagweddau at strwythurau addysgol yng Nghymru a Lloegr, a'r dadleuon o blaid ac yn erbyn ffrydio. Bydd Mater 4 yn dyrannu ychydig o amser i asesu datblygiad rhaglenni 'Her' ledled y DU, a manteision cydweithredu'n fodd o wella ysgolion.

Bydd y ffocws hwn yn datblygu dealltwriaeth ehangach o fodelau strwythurol a ddefnyddir ar draws y DU a thu hwnt, a bydd yn pwysu ar doreth o gyhoeddiadau diweddar sy'n nodi cryfderau a gwendidau'r dulliau hyn. Mae'r materion hyn yn arbennig o berthnasol o gofio'r sefyllfa ariannol fregus y mae'r DU ynddi ar hyn o bryd.

Mater 5: Tlodi uchelgais – beth nesaf i addysg? Effaith tlodi ar addysg; problemau parhaol; myfyrdodau a gwerthusiadau. Beth yr ydym wedi ei ddysgu a beth yw'r goblygiadau i'r hyn a ddysgwn yn y dyfodol?

Mae lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol yn broblem barhaol ac yn un y mae pob un o Lywodraethu Cymru wedi ymgodymu â hi. Fodd bynnag, cymysg fu'r canlyniadau. Yn ôl y data, bu cynnydd graddol a lleihawyd y bwlch rhwng disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, mae'r darlun yn amrywio'n fawr ar draws Cymru a hyd yn oed oddi mewn i gymunedau. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod fframwaith ar yr holl gyrff cyhoeddus i sicrhau gwell canlyniadau i bawb. Beth yw tebygrwydd llwyddiant y mesurau hyn? A oes digon yn cael ei wneud i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cyflawni i orau eu gallu? Mae'r mater hwn yn asesu'r sefyllfa gyfredol a hanesyddol, a'r ymdrechion a wnaed i leihau'r bwlch safonau, a'r heriau sy'n gysylltiedig â gwneud hynny. Bydd yn ystyried effaith amddifadedd, rhianta ac anghenion addysgol arbennig ar safonau ac arfer ysgolion – a'r gwersi sydd i'w dysgu oddi wrth wledydd eraill.

Daw'r modwl i ben trwy adfyfrio ar y pynciau a gafodd sylw yn ystod y cyfnod astudio a'r heriau sy'n deillio o bum pwnc craidd y modwl, a gwerthuso'r rhain. Trafodir y goblygiadau ar gyfer asesiadau ac atebir cwestiynau cysylltiedig.

Manylion yr Asesiad

Cydran Asesu 1 – 40% (08.12.18 & 10.12.18)

Paratowch gyflwyniad ar gyfer cynhadledd, sy'n gwerthuso yn feirniadol mater cyfoes byd addysg yng Nghymru, ei gynrychiolaeth mewn datganiadau swyddogol, ei driniaeth gan y cyfryngau a'ch dealltwriaeth o'i driniaeth mewn cyd-destun rhyngwladol (cyflwyniad o 8 munud a deunydd ategol cywerth â 1,500 o eiriau).

Cydran Asesu 2 – 10% (31.01.19)

Cyhoeddwch Flog dros y cyfnod y cynhelir y modwl hwn sy'n dogfennu'r materion yr ydych yn eu harchwilio, y mewnwelediadau yr ydych wedi'u cael, gan siartio eich dysgu a sut yr ydych wedi asesu a gwerthuso eich cyraeddiadau (cywerth â 800 o eiriau, yn seiliedig ar 2 gofnod o leiaf).

Cydran Asesu 3 – 50% (31.01.19)

Paratoch erthygl ar gyfer cyfnodolyn priodol sy'n dilyn y canllawiau i gyfranwyr. Dylech gynnwys crynodeb/cyflwyniad sy'n addas ar gyfer ei gyflwyno i gynhadledd ymchwil neu ei roi ar wefan (papur o 4,000 o eiriau, ynghyd â chrynodeb o 150 o eiriau).

Darllen Allweddol

Dosbarthiad	Cofnod Rhestr Ddarllen	Electronig *
Hanfodol	Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth Ein Cenedl. Cynllun Gweithredu Addysg Llywodraeth Cymru 2017.	☒
Hanfodol	Coe R, Aloisi C, Higgins, Elliot Major L. (2014) <i>What Makes Great Teaching? Review of the Underpinning Research</i> . Durham: Centre for Evaluation and Monitoring/The Sutton Trust.	☒
Hanfodol	Hattie J. (2008) <i>Visible Learning: A Synthesis of over 800 Metaanalyses Relating to Achievement</i> . New York: Routledge.	☒

Hanfodol	Ko J, Sammons P. (2013) <i>Effective Teaching: A Review of Research and Evidence</i> . Reading: CfBT Education Trust.	☒
Hanfodol	OECD, (2014) <i>Improving Schools in Wales: an OECD Perspective</i> . Paris, OECD	☒
Pellach	OECD, (2015) <i>Improving Schools in Scotland: an OECD Perspective</i> . Paris, OECD.	☒
Pellach	Painter A, Bamfield M. (2015) <i>The New Digital Learning Age: How we can enable social mobility through technology</i> . RSA London.	☐
Pellach	Pashler H, Bain PM, Bottge BA, et al. (2007) <i>Organizing Instruction and Study to Improve Student Learning. IES Practice Guide NCER 2007-2004</i> . Washington, DC: National Center for Education Research.	☐
Pellach	Dixon P. <i>Testing Times: Success, Failure and Fiasco in Education Policy in Wales since Devolution</i> .	☐
Pellach	Evans G. (2016) <i>A Class Apart: Learning the Lessons of Education in post-devolution Wales</i> . Welsh Academic Press.	☐
Pellach	Cylchgrawn Addysg Cymru. Gwasg Prifysgol Cymru. I'w gyrchu: http://www.wales.ac.uk/Resources/Documents/Wales-Journal-of-Education-Volume-18.1.pdf	☒
Pellach	British Educational Research Journal. Wiley-Blackwell. Accessed at: http://onlinelibrary.wiley.com/journal/10.1002/%28ISSN%291469-3518;jsessionid=3AE218BCA75A03D995A142B93E27EEDD.d01t02	☒
Pellach	International Journal of Educational Research Elsevier. Accessed at: http://www.journals.elsevier.com/international-journal-of-educational-research/	☒
Pellach	Cambridge Journal of Education. Taylor and Francis. Accessed at: http://www.tandfonline.com/toc/ccje20/current	☒

Pellach	American Educational Research Journal. Sage Journals. Accessed at: http://aer.sagepub.com	☒
Pellach	Deans for Impact. <i>The Science of Learning</i> . Austin, TX: Deans for Impact, 2015. Accessed at: www.deansforimpact.org/pdfs/The_Science_of_Learning.pdf	☒
Pellach	OECD Education Policy Outlook 2015, <i>Making Reforms Happen</i> . Accessed at: http://www.oecd.org/edu/education-policyoutlook-2015-9789264225442-en.htm	☒
Pellach	Programme for International Student Assessment. Accessed at: https://www.oecd.org/pisa/	☒
Pellach	RSA Cities of Learning. Accessed at: https://www.thersa.org/action-and-research/rsaprojects/creative-learning-and-development-folder/cities-oflearning	☒
Pellach	Scottish Government. <i>National Improvement Framework for Scottish Education - achieving excellence and equity</i> . 2016. Accessed at: http://www.gov.scot/Publications/2016/01/8314	☒